sir ddinbych denbighshire
Cyngor
County Council

**Adroddiad i:** Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

**Dyddiad y cyfarfod** 16 Tachwedd 2020

**Aelod Arweiniol / Swyddog** Y Cynghorydd Louise Emery, Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Hamdden, CBSC

**Awdur yr Adroddiad** Erica Wyn Roberts

**Teitl** Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Rhaglen Ariannu Hyblyg

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y Rhaglen Ariannu Hyblyg yng Nghonwy.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y Rhaglen Ariannu Hyblyg yng Nghonwy. Mae Llywodraeth Cymru yn ymofyn i ni sicrhau fod y grantiau Ariannu Hyblyg yn alinio gydag amcanion lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac adrodd i'r Bwrdd ar y cynnydd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Nodi'r cynnydd ac ystyried a yw'r gwaith yn alinio ag amcanion lles Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Gweler Atodiad 1 am fanylion llawn.

4.2. Mae dull Ariannu Hyblyg Llywodraeth Cymru yn anelu at sicrhau fod 10 grant gwahanol yn gweithio gyda'i gilydd gyda'r nod o ddarparu ymreolaeth well gan yr awdurdod lleol dros ddarpariaeth gwasanaeth, a galluogi dull mwy strategol o ddarparu ymyrraeth gynnar, atal a chefnogi.

4.3. Mae dau grant integredig – neu ‘gronfa gyllid’. Sef:

- Grant Plant a Chymunedau Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Cronfa Etifeddiaeth (cyd-nerthu cymunedol), Cymunedau am Waith a Mwy, Hybu Ymgysylltu ar gyfer Pobl Ifanc (Cyfiawnder Ieuenctid), Gofal Plant a Chwarae, a Chronfa Dydd Gŵyl Dewi (pobl sy'n gadael gofal)
  **Cyfanswm i Gonwy - £4,124,140**

- Y Grant Cymorth Tai: Cefnogi Pobl, Atal Digartrefedd a Rhentu Doeth Cymru (Gorfodaeth)
  **Cyfanswm i Gonwy - £6,571,460**

4.4. Pwrpas y ddau grant yw mynd i’r afael â’r anghenion cymorth, ac anghenion cymorth y plant a’r oedolion mwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau mewn perthynas â thai, drwy ystod o ddulliau ymyrraeth gynnar, atal a chefnogi. Bydd yn ceisio lleihau neu ddileu'r anfantais i bobl ddiamddiffyn, er mwyn eu galluogi i gael yr un cyfleoedd mewn bywyd ag eraill, ac felly cyfrannu tuag at Gymru sy’n fwy cyfartal.

4.5. Gweledigaeth Conwy yw cryfhau ein perthynas gyda dinasyddion er mwyn ein galluogi i weithio gyda’n gilydd i wella’r sir. Mae Ariannu Hyblyg yn rhoi cyfle i ni gyflawni gwell aliniad rhaglenni, a defnyddio cyllid yn fwy effeithiol i fodloni anghenion lleol. Disgwylir y bydd mwy o ryddid a hyblygrwydd â chyllid yn galluogi Conwy i weithio'n wahanol, gan roi mwy o le i gynllunio gwasanaethau i gefnogi awch y Llywodraeth am ddulliau mwy ataliol, hirdymor, a gweithio thuag at flaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol. .

4.6. Er mwyn datblygu’r dull i weithio’n hyblyg ac alinio’r 10 grant, rydym wedi sefydlu 5 ffrwd waith dan ein Rhaglen Ariannu Hyblyg. Mae’r rhain yn cynnwys swyddogion cefnogi ac arweiniol ar gyfer grantiau gwahanol, yn ogystal â rolau arbenigol ar draws yr awdurdod.

4.7. Rydym ni hefyd wedi nodi 6 thema i strwythuro’n gwaith: **(Gweler Atodiad 1 am ragor o fanylion):**

Rhianta, Gofal Plant a Chwarae, Pobl Ifanc, Iechyd a Lles, Cyflogadwyedd ac Atal Digartrefedd.

4.8. Un o brif nodau'r rhaglen yw nodi dulliau mwy effeithiol o weithio, gan nodi dyblygu a chyfleoedd i weithio'n agosach, er mwyn sicrhau ein bod ni'n manteisio i'r eithaf ar ein dull ymyrraeth gynnar ac atal.

4.9. Yng Nghonwy, mae deg grant yn cynnwys pum Gwasanaeth (Plant, Teuluoedd a Diogelu; Datblygu Cymunedol; Addysg, Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig, a Rheoleiddio a Thai) ac mae'r Grŵp Cyflawni'n elfen allweddol o lywodraethu'r rhaglen, sy'n goruchwylio 5 ffrwd gwaith y rhaglen yn fanwl, ac yn dod â'r rheolwyr gwasanaeth a'r swyddogion arweiniol ar gyfer y 10 cynllun ynghyd.

4.10. Mae'r gwaith yn cynnwys datblygu ein Proffiliau Lleol, sy'n cynnwys ystod eang o ddata, gan gynnwys dangosyddion tlodi, addysg, iechyd a gwybodaeth droseddol, yn ogystal â gwybodaeth ddemograffig ar gyfer pob ardal.

4.11. O fewn ein thema rhianta, rydym wedi datblygu dull Canolfan Deuluoedd, sy'n dod â'r grantiau Canolfan Deuluoedd a Dechrau'n Deg ynghyd dan un dull darparu. Mae'r adnodd Lles y Teulu wedi cyrraedd rhestr fer am wobr, ac rydym wedi cael ei gwahodd i ymuno â phrosiect arloesol Rhoi Plant yn Gyntaf.

4.12. Yng Nghonwy, defnyddir y grant Gofal Plant a Chwarae i ddarparu cymorth ariannol i gefnogi teuluoedd a chlybiau, yn ogystal ag ariannu'r Swyddog Datblygu busnes Gofal Plant i sicrhau ansawdd a chynaliadwyedd yr 85 clwb Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol, gan gynnig 2,641 o leoedd gofal plant yng Nghonwy.

4.13. Mae ein themâu Pobl Ifanc yn cynnwys NEET, darpariaeth hamdden, a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol, yn ogystal â'r grantiau arbennig. Mae Cronfa Dydd Gŵyl Dewi, sy'n gronfa arbennig ar gyfer cefnogi pobl sy'n gadael gofal i gael mynediad at gyfleoedd a fydd yn eu helpu i arwain bywydau annibynnol a llwyddiannus, wedi gwahodd pobl sy'n gadael gofal i ymuno â'n panel i ystyried ceisiadau ar gyfer y gronfa Dydd Gŵyl Dewi yn ddiweddar. Mae'r grant Hyrwyddo Ymgysylltiad Cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer cyfiawnder adferol, mynediad at Addysg, Hyfforddiant, Cyflogaeth a rhaglen wirfoddoli.

4.14. O fewn ein thema Iechyd a Lles, rydym wedi bod yn ceisio adborth gan ddefnyddwyr ar gyfleoedd chwarae a gwasanaethau hamdden, ac rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr Iechyd yn ogystal â chysylltu â Banciau Bwyd yng Nghonwy.

4.15. Rydym wedi adolygu nifer o gynlluniau yn ymwneud â chyflogaeth, ac o ganlyniad, rydym wedi symud ein cymorth cyflogadwyedd i un maes gwasanaeth, yn ogystal â gweithredu strwythur cyflogadwyedd newydd.

4.16. Rydym ar hyn o bryd yn dadansoddi data Canlyniadau Cefnogi Pobl, er mwyn deall pwy rydym yn eu cefnogi ar hyn o bryd, beth yw eu hanghenion, a’n galluogi i ragweld y galw am wasanaethau atal digartrefedd a chymorth tai i’r dyfodol yn well.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau?

5.1. Mae’r adroddiad (Atodiad 1) yn nodi sut mae’r rhaglen yn cyfrannu at flaenoriaethau Conwy a’r 6 thema sy’n sail i strwythur ein gwaith. Nid oes penderfyniad yn yr achos hwn.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae’r Rhaglen Ariannu Hyblyg yn cynnwys deg grant sefydledig, gan gwmpasu pum maes gwasanaeth. Mae’r rhaglen yn anelu at alinio’r grantiau hyn i ddefnyddio cyllid yn fwy effeithiol ac i fodloni anghenion lleol. Yr unig gostau ychwanegol yw’r costau sydd ynghlwm â Rheolwr y Rhaglen a’r Dadansoddwr Gwybodaeth a gafodd eu penodi ar sail cyfnod penodol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

7.1. Nid oedd angen datganiad ganddo ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni chwblhawyd ymgynghoriad, mae’r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Ni chwblhawyd ymgynghoriad, mae’r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Ni nodwyd unrhyw risgiau, mae’r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.